Problemau gyda chredydau treth

Beth yw credydau treth?

Mae yna ddau fath o gredydau treth:

- Mae Credyd Treth Gwaith yn arian ychwanegol a gewch gan y llywodraeth os ydych yn gweithio ac ar incwm isel
- Mae Credyd Treth Plant yn arian ychwanegol a gewch gan y llywodraeth os oes gennych blant. Nid oes rhaid eich bod yn gweithio i gael Credyd Treth Plant.

Mae p'un ai y gallwch gael credydau treth a'u swm yn dibynnu ar eich incwm, ac amgylchiadau eich teulu.

Telir credydau treth gan Gyllid a Thollau EM (HMRC).

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio rhai o'r problemau sydd ynghlwm wrth hawlio credydau treth ac mae'n awgrymu sut y gallwch ddelio â hwy.

Rydych yn anghytuno â'r penderfyniad ynghylch eich hawliad

Mae'n bosib eich bod wedi hawlio credydau treth a bod yr HMRC wedi dweud:

- nad oes gennych yr hawl i gael mwy o arian ond rydych chi o'r farn bod mwy o arian yn ddyledus
- bod gennych yr hawl i swm o gredyd treth sy'n llai na faint ddylech ei gael
- bod rhaid i chi dalu cosb (er enghraifft, oherwydd maen nhw'n dweud nad oeddech wedi rhoi'r holl wybodaeth oedd ei angen arnynt i wneud penderfyniad).

Yn yr holl sefyllfaoedd hyn, gallwch gysylltu â Llinell Gymorth Credyd Treth HMRC ar **0345 300 3900** a gofynnwch am esboniad o'r penderfyniad sy'n peri problem i chi. Ar ôl i chi drafod y broblem gyda'r Llinell Gymorth, mae'n bosib gallant newid y penderfyniad. Os nad ydynt yn newid y penderfyniad neu os ydych yn parhau i anghytuno â nhw, gallwch ofyn iddynt edrych ar eich achos eto yn fwy ffurfiol. Os nad ydych yn cytuno â'r HMRC ar ôl hyn, gallwch apelio.

Apelio yn erbyn penderfyniad
Gallwch apelio yn erbyn y rhan fwyaf o benderfyniadau'r HMRC sy'n ymwneud â chredydau treth. Os oes gennych yr hawl i apelio, bydd yr HMRC yn rhoi gwybod i chi.

Mae'n rhaid i chi apelio yn ysgrifenedig. Gallwch naill ai gael ffurflen drwy ffonio Llinell Gymorth Credyd Treth HMRC neu ysgrifennu llythyr neu e-bost. Mae'n rhaid i chi lofnodi eich apêl ac mae'n rhaid i chi gynnwys eich enw, rhif yswiriant gwladol a'r

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

dyddiad a wnaed y penderfyniad. Cewch hyd i'r dyddiad hwn ar frig yr hysbysiad penderfyniad.

Mae apelio yn broses gymhleth ac mae'n syniad da cael cyngor arbenigol yn gyntaf. Cofiwch weithredu cyn gynted â phosibl oherwydd, heblaw bod yna amgylchiadau eithriadol, mae'n rhaid i'r HMRC dderbyn eich apêl o fewn tri deg diwrnod ohonoch yn derbyn y penderfyniad ynglŷn â'ch hawliad. Gellir ymdrin ag apeliadau gyda gwrandawiad neu hebddo - mae'n rhaid i chi ddweud beth yr hoffech. Eto, mae'n rhaid i chi hysbysu'r gwasanaeth tribiwnlys o fewn y terfyn amser. Bydd hysbysiad penderfyniad yn cael ei anfon atoch cyn gynted â phosibl ar ôl yr apêl.

Rydych lawer mwy tebygol o ennill apêl os ydych yn cael gwrandawiad a chael ymgynghorydd arbenigol i'ch cynrychioli chi.

Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad y tribiwnlys, nid oes llawer y gallwch ei wneud. Mae'n bosib y gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys os ydych yn credu bod y tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad yn y ffordd wnaethant ddehongli'r gyfraith. Os hoffech apelio i'r Uwch Dribiwnlys, mynnwch gyngor arbenigol yn gyntaf.

Gordaliadau

Gallai'r HMRC benderfynu eu bod wedi rhoi gormod o arian i chi a gofyn i chi ei ad-dalu oherwydd, er enghraifft, ni roddoch wybod iddynt yn syth am newid yn eich incwm neu amgylchiadau personol.

Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad i adennill y gordaliad, gofynnwch i'r Llinell Gymorth Credydau Treth i esbonio'r rheswm dros hyn. Cadwch gofnod o'ch galwad ffôn, gan gynnwys dyddiad ac amser yr alwad. Dylai'r Llinell Gymorth roi esboniad i chi o'r gordaliad yn ysgrifenedig. Os nad ydych yn cytuno â'r esboniad, gallwch ofyn i'r HMRC edrych ar eu penderfyniad eto. Gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig neu drwy lenwi ffurflen TC846 a gewch drwy ffonio'r HMRC ar **0345 300 3900.**

Ni fydd yr HMRC yn casglu'r gordaliad tra'u bod yn ystyried p'un ai bod yn rhaid i chi ei ad-dalu. Dylai'r HMRC anfon eu penderfyniad atoch, ynghyd â'u rhesymau, yn ysgrifenedig.

Os ydych dal yn anhapus gyda'r penderfyniad, gallwch ofyn iddynt edrych ar y penderfyniad eto os oes gennych wybodaeth newydd neu os ydych yn teimlo nad ydynt wedi ystyried y wybodaeth a roddoch iddynt o'r blaen. Fel arall, dylech gael cyngor ar eich opsiynau cyn gynted â phosibl. Mewn rhai amgylchiadau, gallai hyn gynnwys mynd i'r llys.

Gallwch ofyn i'r HMRC am fwy o amser i ad-dalu gordaliad. Ffoniwch nhw ar 0845 302 1429 a gofynnwch naill ai i ad-dalu'r arian mewn rhandaliadau, neu iddynt aros am gyfnod cyn dechrau casglu'r gordaliad.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr HMRC ddileu'r gordaliad i gyd neu ran ohono os fyddai'n rhy anodd i chi neu'ch teulu i'w ad-dalu, er enghraifft, os na allwch dalu costau byw hanfodol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Twyll

Gall yr HMRC benderfynu codi tâl arnoch am dwyll os ydynt yn meddwl eich bod wedi gwneud y canlynol yn fwriadol:

- Nid ydych wedi rhoi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt
- Rydych wedi rhoi gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol iddynt am eich incwm neu amgylchiadau personol
- Nid ydych wedi rhoi gwybod am newid yn eich amgylchiadau o fewn tri mis.

Ni chodir tâl arnoch am dwyll os oes gennych esgus rhesymol neu esboniad dros wneud un o'r pethau hyn.

Mae twyll credyd treth yn drosedd. Efallai bydd yn rhaid i chi dalu cosb, wynebu cyhuddiadau troseddol a hyd yn oed cael eich anfon i'r carchar os ydych yn euog.

Os cewch eich cyhuddo o dwyll credyd treth, mynnwch gyngor arbenigol.

Cwyno am y ffordd y mae'r HMRC wedi delio â'ch hawliad

Mae'n bosib eich bod yn anhapus gyda'r ffordd y mae HMRC wedi delio â'ch hawliad i gredyd treth. Gallai hyn fod oherwydd:

- rydych wedi cael eich trin yn llai ffafriol oherwydd eich rhyw, hil, rhywioldeb, anabledd neu grefydd
- bu oedi afresymol wrth ddelio â'ch hawliad neu ymholiad
- cawsoch broblemau difrifol wrth geisio cysylltu dros y ffôn i drafod eich hawliad
- roedd staff yr HMRC yn anfoesgar neu heb fod o gymorth
- rhoddodd staff yr HMRC y cyngor anghywir i chi neu wedi gwneud camgymeriadau niferus neu ddifrifol (gallech gael iawndal am hyn).

Os nad ydych yn hapus gyda'r gwasanaeth a dderbynioch, gallwch geisio datrys y broblem yn anffurfiol gyda rhywun yn y swyddfa a ddeliodd â'ch cais. Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb, gallwch gwyno i'r Rheolwr Cwynion yn yr un swyddfa. Os ydych dal i fod yn anfodlon, gallwch ofyn iddynt ail-edrych ar y penderfyniad.

Os nad ydych yn cael ymateb boddhaol i'ch cwyn, gallwch ofyn i'r **Dyfarnwr** ei archwilio. Mae yna derfynau amser llym. Mae manylion cyswllt y Dyfarnwr fel y ganlyn:

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

The Adjudicator's Office
8th Floor
Euston Tower
286 Euston Road
London
NW1 3US
Rhif ffôn: 0300 057 1111
E-bost: adjudicators@gtnet.gov.uk
Gwefan: www.adjudicatorsoffice.gov.uk

Gallwch hefyd gwyno i'r **Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd**, ond fel arfer mae'n rhaid eich bod wedi cyfeirio eich cwyn at y Dyfarnwr yn gyntaf. Am fwy o wybodaeth, ewch at: www.ombudsman.org.uk neu ffoniwch swyddfa'r Ombwdsmon ar 0845 015 4033.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Gordaliadau credydau treth
- Credydau Treth – rhoi gwybod o newid mewn amgylchiadau
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- Budd-daliadau a chredydau treth i bobl sy'n gweithio
- Sut i ddefnyddio ombwdsmon

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 6 Ebrill 2012, a chaiff ei hadolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio p'un ai yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir ai peidio. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho'r copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr